# Adroddiad y Grŵp Trawsbleidiol ar Blant sy’n dioddef gan fod eu Rhieni wedi’u Carcharu

## 2016

# Cynnwys


Rhagair – Christine Chapman AC 4

Aelodau'r Grŵp Trawsbleidiol 6

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 7

Argymhellion 8

Plant sy'n Teimlo Effaith Carcharu eu Rhieni: effaith ar les 10

Faint o blant yng Nghymru sy'n Teimlo Effaith Carcharu eu Rhieni? 11

Cefnogaeth i Deuluoedd 12

- PACT 13
- Invisible Walls Cymru 14
- Gwasanaeth Cefnogaeth Gymunedol Barnardo's Cymru i Deuluoedd Troseddwyr – Cefnogaeth i Deuluoedd 14

Addysg 16

- Gwasanaeth Presenoldeb a Lles Rhondda Cynon Taf 19
- Cytgord Invisible Walls, Carchar EM Parc 20
- Gwasanaeth Cefnogaeth Gymunedol Barnardo's Cymru i Deuluoedd Troseddwyr – gweithio gydag ysgolion 21

Menywod yn y carchar – effaith bod â mam yn y carchar 23

Cynllun Braenaru Rheoli Troseddwyr Integredig (IOM) Cymru i Fenywod 24

Prosiect Ymweld â Mam – PACT a Sova 25

Tlodi plant a phlant sy’n teimlo effaith carcharu eu rhieni 26

Astudiaethau achos: Cyngor ar Bopeth Cymru 28

PACT Cymru – Carchar Abertawe, Carchar Caerdydd, Carchar Brynbuga a Phrescoed 29

Cyngor ar Bopeth Cymru 30

Barnardo’s Cymru - Gwaith teulu, Susan Ellis Canolfan Ymwelwyr Carchar a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc 31

Sesiwn gyda phlant a rhieni sy’n teimlo effaith carcharu 32

Cyfarfodydd y Grŵp Trawsbleidiol 34

Pwy oedd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Grŵp Trawsbleidiol 37

Cyfeiriadau 39

# Rhagair

## Christine Chapman AC

Dylai pob plentyn yng Nghymru allu mwynhau ei hawliau dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC), heb wahaniaethu yn eu herbyn. Mae hefyd angen cael cefnogaeth er lles plant a phobl ifanc er mwyn iddynt allu cael canlyniadau da, a dylai'r gefnogaeth honno fod yn sylfaenol mewn polisïau ac arferion.

Gwyddom fod rhai plant a phobl ifanc yn wynebu rhwystrau penodol rhag gwireddu eu hawliau a ffynnu, oherwydd eu hamgylchiadau. Rydym yn cydnabod yr angen i ddarparu cefnogaeth ychwanegol neu wedi'i dargedu i lawer o grwpiau o blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed, yn enwedig y rheini y mae materion fel cyfrifoldebau gofalu, profiad o'r system gofal, anabledd, neu anghenion dysgu ychwanegol yn effeithio arnynt. Fodd bynnag, hyd yma, ni chafodd anghenion penodol plant sy'n teimlo effaith carcharu eu rhieni eu hystyried yn drwyadl mewn polisïau nac ymarfer yng Nghymru.

Mae'r trydydd sector wedi sefydlu nifer o wasanaethau arbenigol, yn aml drwy weithio mewn partneriaeth â sefydliadau diogel i roi sylw i'r mater hwn yng Nghymru. Fodd bynnag, ni cheir mesur swyddogol o nifer y plant y mae'r mater hwn yn effeithio arnynt, ac mae ein dealltwriaeth o faint y broblem yn seiliedig ar amcangyfrifon ar gyfer Cymru a Lloegr.

Er gwaethaf tystiolaeth glir y gall carchariad rhiant neu aelod agos o'r teulu gael effaith uniongyrchol ar les plant a phobl ifanc, ni wnaed dim gwaith penodol, cenedlaethol i ystyried y mater hwn yng Nghymru.

Y rhesymau uchod wnaeth fy ysgogi i sefydlu'r Grŵp Trawsbleidiol ar Blant sy'n Dioddef gan fod eu Rhieni wedi'u Carcharu. Rydym wedi cymryd tystiolaeth dros bum sesiwn tystiolaeth thematig; yn ogystal mae'r aelodau wedi ymweld â Charchar EM Parc ac, yn bwysig, mae'r aelodau wedi cael cyfle i gwrdd â phlant a rhieni sy'n teimlo effaith carcharu.

Mae'r adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion ac yn cyflwyno'r dystiolaeth a gasglwyd drwy waith y Grwp Trawsbleidiol sydd wedi hysbysu'r argymhellion hynny. Rwy'n gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn arwain at gydnabod anghenion penodol plant sy'n teimlo effaith carcharu eu rhieni ac at gefnogaeth i gael ymatebion drwy bolisïau ac ymarfer a fydd yn diwallu anghenion y plant a'r bobl ifanc hynny yng Nghymru.

Rwy’n falch bod arweiniad a gyhoeddwyd yn ddiweddar dan Ran 11 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), yn cynnwys darpariaeth ar gyfer plant sydd â thad mewn sefydliad diogel. Bydd rhai sydd angen cymorth neu ofal yn cael eu cyfeirio am asesiad o’u hanghenion. Mae hwn yn ddatblygiad addawol, ond mae llawer o waith i’w wneud o hyd i sicrhau y gall y plant hyn wireddu eu hawliau a ffynnu fel eu cyfoedion.

**Christine Chapman AC (Cadeirydd)**

**Chwefror 2016**

## Grŵp Trawsbleidiol ar Blant sy'n Dioddef gan fod eu Rhieni wedi'u Carcharu

| Aelodau | Plaid | Etholaeth neu Ranbarth |
|---|---|---|
| Christine Chapman (Cadeirydd) | Llafur | Cwm Cynon |
| Jocelyn Davies | Plaid Cymru | Dwyrain De Cymru |
| Suzy Davies | Ceidwadwyr Cymreig | Gorllewin De Cymru |
| Aled Roberts | Democratiaid Rhyddfrydol Cymreig | Gogledd Cymru |

### Ysgrifenyddiaeth

| | |
|---|---|
| Laura Tranter | Barnardo's Cymru |
| Dr Sam Clutton | Barnardo's Cymru |
| Elaine Speyer | Barnardo's Cymru |
| Esther Brinkers | Barnardo's Cymru |
| Tim Ruscoe | Barnardo's Cymru |

# Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)

**Erthygl 2 (dim gwahaniaethu)**
Mae'r Confensiwn yn gymwys i bob plentyn yn ddiwahân, beth bynnag yw ei ethnigrwydd, rhyw, crefydd, iaith, galluoedd neu unrhyw statws arall, beth bynnag a feddylia neu a ddywed, **beth bynnag yw ei gefndir teuluol.**

**Erthygl 9 (gwahanu oddi wrth rieni)**
Dywed bod rhaid i Bartïon barchu hawl y plentyn sydd wedi cael ei wahanu oddi wrth naill ai un neu'r ddau riant i gadw perthynas bersonol a chysylltiad uniongyrchol â'r ddau riant yn rheolaidd, ac eithrio os yw hynny'n mynd yn groes i les y plentyn. **Mae hyn yn cynnwys plant a wahanwyd oddi wrth eu rhieni oherwydd y carchar.**

# Argymhellion

## Asesu maint yr angen:

Dylid rhoi prosesau ar waith i sicrhau bod gwasanaethau sy'n gweithio gyda throseddwyr, teuluoedd a phlant yn monitro ac yn cofnodi'r data ar nifer y plant sy'n teimlo effaith carcharu eu rhieni.

Dylai asesiadau poblogaeth awdurdodau lleol, a gynhelir dan Ran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gynnwys asesiad o anghenion plant sy'n teimlo effaith carcharu eu rhieni.

## Cefnogaeth i deuluoedd:

Dylai polisïau, rhaglenni ac arferion cefnogaeth i deuluoedd gynnwys canllawiau a hyfforddiant i sicrhau bod plant troseddwyr yn cael eu nodi, bod eu hanghenion yn cael eu deall a'u bod yn cael cefnogaeth briodol er mwyn eu lles.

Dylai gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth a sefydlwyd dan Ran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gael eu hyrwyddo mewn llysoedd a charchardai.

## Addysg:

Dylai polisïau ac ymarfer addysg gynnwys canllawiau a hyfforddiant i sicrhau bod plant troseddwyr yn cael eu nodi, bod eu hanghenion yn cael eu deall a'u bod yn cael cefnogaeth briodol, fel rhan o waith ehangach i gefnogi lles a chyrhaeddiad addysgol disgyblion.

## Menywod yn y carchar:

Dylai hyfforddiant a chanllawiau ar draws sectorau helpu i ddeall yr effaith sylweddol, benodol ar les plentyn pan gaiff mam ei charcharu, a darparu cefnogaeth briodol. Dylid rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod plant sy'n cael eu gwahanu oddi wrth eu mamau oherwydd eu bod wedi'u carcharu yn gallu cadw cysylltiad â nhw.

Rhaid gweithredu ar frys i ddatblygu ymhellach ddewisiadau eraill yn y gymuned yn lle carcharu i fenywod sy'n cael eu dedfrydu, ac er mwyn sicrhau bod effaith aruthrol carcharu mam ar blant, yn cael yr ystyriaeth ddyladwy mewn penderfyniadau dedfrydu.

## Tlodi plant:

Dylai polisïau, rhaglenni ac ymarfer mewn perthynas â mynd i'r afael â thlodi ddarparu cefnogaeth wedi'i thargedu mewn carchardai ac yn y gymuned i blant a theuluoedd sy'n teimlo effaith carcharu aelod o'u teulu.

## Plant sy'n Teimlo Effaith Carcharu eu Rhieni: effaith ar les

Mae plant y mae un o'u rhieni yn y carchar[1]:

- Ddwywaith mor debygol â phlant eraill o gael problemau ymddygiad ac iechyd meddwl
- Yn llai tebygol o wneud yn dda yn yr ysgol
- Yn fwy tebygol o gael eu gwahardd o'r ysgol
- Yn fwy tebygol o gael eu harestio a'u carcharu fel oedolion ifanc
- Dair gwaith yn fwy tebygol o fod yn gysylltiedig â gweithgaredd troseddu eu hunain
- Bydd 65% o fechgyn sydd â thad sydd wedi'i euogfarnu yn mynd ymlaen i droseddu eu hunain.

Yn 2007 adroddodd adolygiad gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder o blant sy'n teimlo effaith carcharu eu rhieni ei bod[2]:

**Yn amlwg am amrywiol resymau bod mwy o risg i blant carcharorion na'r boblogaeth blant yn gyffredinol a'u bod yn debygol o fod angen cefnogaeth helaeth. Mae carcharu rhieni felly yn rhoi cyfle i nodi plant sydd mewn perygl o ganlyniadau gwael a chynnig cefnogaeth i liniaru effeithiau amgylchiadau a charchariad rhieni.'**

# Faint o blant yng Nghymru sy'n Teimlo Effaith Carcharu eu Rhieni?

Nid oes tystiolaeth benodol ar gael o faint o rieni sydd wedi'u carcharu nac am effaith hynny ar blant carcharorion yng Nghymru. Er hynny:

- Mae data a gafwyd oddi wrth NOMS (Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr) Cymru ar y niferoedd disgwyliedig o garcharorion gwrywaidd Cymreig a ddelir yng ngharchardai Cymru sy'n dadau, (yn seiliedig ar y rhagdybiaeth bod gan 59% o garcharorion gwrywaidd blant dan 18 oed[3]), yn awgrymu bod nifer y plant yng Nghymru sy'n teimlo effaith carcharu eu tad, yn oddeutu 2000.

- Mae ffigurau a gafwyd oddi wrth NOMS Cymru yn amcangyfrif bod tua 250 o fenywod o Gymru mewn carchardai yn Lloegr ar unrhyw un adeg (nid oes unrhyw garchardai i ferched yng Nghymru). Mae ymchwil yn awgrymu bod hyd at 55% o fenywod a gafodd eu cyfweld yn y carchar, yn famau i blant dan 18 oed.

- Bydd gan 7% o blant un rhiant wedi'i garcharu yn ystod eu hamser yn yr ysgol.

Mae darpariaethau sydd wedi'u cynnwys mewn canllawiau a gyhoeddwyd dan Ran 11 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn darparu ar gyfer nodi plant dynion yn yr ystâd ddiogel yng Nghymru, er mwyn cael eu hasesu o safbwynt eu hangen am ofal a chefnogaeth. Bydd yr awdurdod lle mae'r carchar yn cyfeirio plant a nodir fel hyn i'w hawdurdod cartref, fel y gellir ystyried eu hanghenion. Bydd hyn yn darparu rhywfaint o ddata ar blant y mae'r mater hwn yn effeithio arnynt y gellir ei fonitro'n lleol, ond ni fydd wedyn yn rhoi darlun llawn o'r angen inni. Mae angen datblygu system i nodi plant y mae un o'u rhieni'n cael ei garcharu.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol gynnal a chyhoeddi asesiadau poblogaeth, gan gynnwys maint yr anghenion gofal a chefnogaeth yn y boblogaeth, ystod a lefel y gwasanaethau gofal a chefnogaeth sydd eu hangen i fodloni'r anghenion hynny, ac ystod y gwasanaethau ataliol sydd eu hangen. Dylai plant sy'n teimlo effaith carcharu eu rhieni gael eu hystyried


yn briodol fel grŵp ar wahân sydd angen gwasanaethau ataliol a gofal a chefnogaeth yn y cyfryw asesiadau poblogaeth.

# Cefnogaeth i Deuluoedd

Mae tystiolaeth glir y gall carcharu rhiant gael effaith negyddol ar les plant. Bydd perthnasoedd teuluol dan straen yn sgil carcharu aelod o'r teulu. Ar yr un pryd, mae perthnasoedd teuluol cryf a chefnogol yn cael eu cysylltu â gostyngiad mewn aildroseddu.[4]

Mae amddifadedd cymdeithasol ac economaidd yn aml yn effeithio ar droseddwyr a'u teuluoedd. Mae'r rhiant, sy'n cael ei adael ar ôl i ymdopi â chefnogi'r teulu gartref ar ôl i'r partner gael ei garcharu, yn aml dan straen aruthrol. Gall y rhiant sy'n cael ei adael ar ôl gartref hefyd ei chael yn anodd dweud wrth y plant am yr hyn sydd wedi digwydd, a gall ddioddef stigma a chael ei ynysu yn y gymuned. Gall carcharu rhiant fod yn ddigwyddiad sy'n peri pryder i blentyn a gall hefyd fod yn drawmatig – mae 84% o blant yn gweld eu rhiant yn cael ei arestio.

Bydd llawer o deuluoedd eisoes mewn cysylltiad â gwasanaethau, ond ni fydd pob un yn dweud wrth y gwasanaethau prif ffrwd bod aelod o'r teulu yn y carchar. Mae rhiant yn y carchar hefyd yn debygol o gael ei gysylltu ag amrywiol faterion ychwanegol gan gynnwys, camddefnyddio alcohol a sylweddau a cham-drin domestig.[5] Os yw teuluoedd eisoes yn cael cefnogaeth, drwy edrych ar y teulu cyfan mae angen cydnabod rôl y rhiant sydd wedi'i garcharu yn y teulu a helpu ar adegau tyngedfennol a fydd yn cael effaith benodol ar deuluoedd, megis adeg carcharu ac adeg rhyddhau.



Mae nifer o wasanaethau yng Nghymru sy'n darparu cefnogaeth benodol i deuluoedd sy'n teimlo effaith carcharu rhiant. Fe wnaeth pob un o'r gwasanaethau ddarparu tystiolaeth i'r Grŵp Trawsbleidiol.

## Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai - PACT Cymru – cefnogaeth i deuluoedd

Mae'r Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai (PACT) yn darparu gwasanaethau mewn carchardai a chymunedau ar draws y DU. Mae'r sefydliad yn darparu amrywiol ymyriadau a gydnabyddir gan gynnwys canolfannau ymwelwyr, arlwyo, chwarae yn y carchar, gwaith ymgysylltu teuluol a phrosiectau gwirfoddoli.

Yng Nghymru mae PACT Cymru yn cynnig cefnogaeth drwy nifer o brosiectau a ariennir gan Loteri Fawr Cymru, ar y cyd â'r gwasanaeth carchardai, fe'u rhestrir isod:

### Carchar EM Abertawe :

Mae gweithwyr ymgysylltu teuluol yn darparu cefnogaeth gwaith achosion teulu i ddynion yng Ngharchar EM Abertawe a'u teuluoedd. Maent hefyd yn cynnal ymyriadau fel cyrsiau magu plant, cyrsiau perthnasoedd, diwrnodau i'r teulu a grwpiau babanod.

### Carchar EM Caerdydd:

Mae gwaith achosion yn cael ei wneud gyda charcharorion a theuluoedd drwy dri gweithiwr ymgysylltu teuluol llawn amser. Maent yn darparu ymyriadau fel diwrnodau i'r teulu, prosiectau llythrennedd, cyrsiau perthnasoedd a grwpiau babanod. Maent hefyd yn rhedeg gwasanaeth cinio PACT yn neuadd ymweld y carchar, gan sicrhau bod teuluoedd yn gallu bwyta ac yfed gyda'i gilydd ar bob ymweliad.

### Carchar EM Brynbuga a Phrescoed:

Mae gan PACT weithiwr ymgysylltu teuluol sy'n gweithio ar draws carchardai Brynbuga a Phrescoed, gan ddarparu gweithiwr achosion, gwybodaeth, cyngor a sesiynau galw mewn ar gyfer carcharorion a theuluoedd. Mae hefyd yn cynnal diwrnodau i'r teulu a sesiynau ymyriadau eraill.

## Invisible Walls Cymru

Carchar EM Parc:

Prosiect a ariennir gan y Loteri Fawr ac a gyflwynir drwy bartneriaeth a arweinir gan G4S, Carchar Parc a Barnardos Cymru ydy Invisible Walls Cymru. Nod y prosiect yw ceisio integreiddio'r gefnogaeth a'r ymyriadau a gynigir i ddynion penodol yn y ddalfa. Caiff y prosiect ei gyflwyno drwy waith ymyrraeth deuluol y carchar gyda chefnogaeth, triniaeth a chyngor i'r teulu cyfan. Caiff y gwasanaethau eu teilwra ar gyfer teuluoedd unigol ac mae'n cynnwys; rhaglenni magu plant, cefnogaeth unigol ar gyfer aelodau'r teulu, cefnogaeth ar gyfer ymweld â'r carchar, cefnogaeth ar gyfer integreiddio carcharorion yn ôl i'w teuluoedd a'u cymunedau, a gwaith eirioli ar ran teuluoedd, fel y gallant gael cymorth gan wasanaethau prif ffrwd. Mae Barnardos Cymru hefyd yn darparu gweithwyr cefnogi i deuluoedd yng Nghanolfan Ymwelwyr Carchar EM Parc, i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i blant a theuluoedd sy'n ymweld ag aelod o'r teulu yn y carchar.

## Gwasanaeth Cefnogaeth Gymunedol Barnardo's Cymru i Deuluoedd Troseddwyr (CSOF) – Cefnogaeth i Deuluoedd

Mae plant sy'n teimlo effaith carcharu eu rhieni yn un o'r grwpiau sy'n cael cefnogaeth fel blaenoriaeth gan Barnardos ar draws y DU a darperir gwasanaethau yn yr ystâd ddiogel a'r gymuned mewn nifer o ardaloedd. Yn wreiddiol rhan o brosiect peilot a ariannwyd ar y cyd gan Barnardos a NOMS oedd gwasanaethau CSOF ac fe'u cynigiwyd mewn tri lleoliad gan gynnwys yn ne Cymru. Mae'r ddarpariaeth gwasanaethau bresennol yn cwmpasu ardaloedd De Ddwyrain Cymru, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot. Mae'r gwasanaeth bellach yn gweithredu fel gwasanaeth gwirfoddol a ariennir gan Barnardos, i gefnogi gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd sy'n teimlo effaith carcharu aelod o'u teulu neu effaith ei droseddu. Mae'r gwasanaeth yn darparu cefnogaeth i deuluoedd sy'n dioddef ynghyd â gwasanaeth ymgynghori/cynghori i weithwyr proffesiynol ac asiantaethau sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd, er mwyn eu galluogi i reoli'r anawsterau emosiynol ac ymarferol sy'n codi pan fydd aelod o'r teulu yn dod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol.

O 1 Ebrill 2016 ymlaen, bydd cylch gorchwyl y gwasanaeth yn newid. Mae'r cam cyntaf yng ngwaith CSOF wedi cynnwys darparu gwasanaethau'n uniongyrchol yn ogystal â gwasanaeth ymgynghori a

hyfforddiant i wasanaethau prif ffrwd. Bydd yr ail gam yng ngwaith CSOF yn canolbwyntio ar ddarparu hyfforddiant, gwaith ymgynghori a meithrin gallu ar draws y system cefnogaeth i deuluoedd, y system addysg a'r system cyfiawnder troseddol.

Fe wnaeth pob un o'r gwasanaethau hyn ddarparu tystiolaeth i'r Grŵp Trawsbleidiol ar anghenion cefnogaeth emosiynol ac ymarferol penodol y teuluoedd y maent yn gweithio gyda nhw. Roedd tystiolaeth bod teuluoedd yn cael trafferth cael y wybodaeth, y cyngor a'r cymorth sydd eu hangen arnynt, i helpu eu plant pan fydd eu rhieni wedi'u carcharu. Codwyd pryderon hefyd yn ystod y sesiwn dystiolaeth y byddai angen gwneud darpariaethau i sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddatblygu gwasanaethau cymorth i deuluoedd 'drwy'r giatiau', yn y carchar newydd yn Wrecsam, Gogledd Cymru, sydd i fod i agor yn 2017.

Roedd y sefydliadau a roddodd dystiolaeth hefyd wedi bod yn gweithio i helpu i ddeall yn well anghenion plant a theuluoedd sy'n teimlo effaith carcharu, a hwyluso ymatebion priodol gan wasanaethau prif ffrwd a rhaglenni cymorth i deuluoedd yn y gymuned. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod angen gwneud mwy o waith, i gynorthwyo gwasanaethau cymunedol prif ffrwd i nodi'r teuluoedd sy'n teimlo effaith carcharu, deall yn llawn effaith carcharu ar deuluoedd, a pharatoi gwasanaethau i roi cefnogaeth briodol fel bod teuluoedd, ac yn enwedig plant, yn cael eu cefnogi'n ddigonol.

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn datgan y dylid helpu rhieni i gyflawni eu rôl i fagu eu plant (erthygl 18); dylid cyflwyno'r hawl hon yn ddiwahân (erthygl 2). Dylai polisïau a rhaglenni gydnabod plant sy'n teimlo effaith carcharu eu rhieni fel grŵp agored i niwed ar ei ben ei hun a dylent gynnig arweiniad ar ymarfer i gefnogi eu lles.



# Addysg

Mae ymchwil wedi dangos bod carcharu rhieni yn cael effaith uniongyrchol ar gyrhaeddiad academaidd plant, ar eu datblygiad economaidd-gymdeithasol a'u hymddygiad ac y gall hyn arwain at fwy o achosion o driwantiaeth neu gael eu gwahardd o'r ysgol.[6] Gall y stigma o gael aelod o'r teulu yn y carchar olygu bod y partner yn y gymuned yn gyndyn o adael i ysgol wybod am newid yn amgylchiadau'r teulu, ar adeg pan fo plant a phobl ifanc yn dod i delerau â cholli rhiant o'r cartref.

Mae problemau niferus megis tlodi, camddefnyddio sylweddau, cam-drin domestig a pherygl o droseddu, hefyd yn gallu golygu bod plant eisoes yn ymdopi ag amgylchiadau sy'n cael effaith negyddol ar brofiadau a chanlyniadau addysgol. Mae'r anfanteision hyn yn gwaethygu pan fydd rhiant yn mynd i'r carchar. Efallai na fydd plant a phobl ifanc yn teimlo eu bod yn gallu datgelu wrth athro yr hyn sydd wedi digwydd gartref, neu efallai iddynt gael eu siarsio i beidio â siarad am y peth. Mae hyn yn eu gadael yn ymdopi ag emosiynau anodd sy'n ymwneud â'u hamgylchiadau teuluol heb gefnogaeth ychwanegol yn yr ysgol.

Bu plant a ddaeth i sesiwn dystiolaeth olaf y Grŵp Trawsbleidiol gofnodi eu profiadau am fod yn yr ysgol a bod â rhiant yn y carchar:

*'Mae'r ysgol angen gwybod. Maen nhw'n gwybod wedyn na all Dad eich casglu o'r ysgol'*

*'Mi wnes i ddweud wrth yr athrawes bod mam yn y carchar. Wnaeth hi ddim dweud dim, ond nawr mae gen i ddyddiadur yn yr ysgol i ysgrifennu sut rwy'n teimlo'*

*'Mae fy ffrindiau'n dweud pethau cas am fy nhad'*

*'Gan nad yw tad yr un o'm ffrindiau yn y carchar, dwi'n teimlo ar ben fy hun'*

*'Dydy'r ysgol ddim yn gwybod'*

Mae Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru yn 2013-14[7] yn pwysleisio pa mor bwysig ydy helpu disgyblion i ffynnu:

> **Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd imi yn awgrymu os methwn â rhoi sylw i les dysgwyr, y byddwn yn methu â helpu ein plant mwyaf dan anfantais i ennill y graddau y mae ganddynt y gallu i'w hennill.**
> **(Comisiynydd Plant Cymru , 2014)**

Mae gan Estyn dystiolaeth gadarn,[8] bod cynnal lles disgyblion yn cael effaith uniongyrchol ar allu plant a phobl ifanc, i wireddu eu potensial a'u cyrhaeddiad addysgol. Mae angen i ysgolion a lleoliadau addysg eraill gael eu paratoi i nodi plant sy'n teimlo effaith carcharu eu rhieni, bod â phrosesau ar waith i helpu'r plant a'r bobl ifanc hyn i ddweud am eu sefyllfa, a chael cefnogaeth ar waith sy'n cydnabod carcharu rhieni ar les disgyblion ac ymgysylltiad addysgol.

> **Mae ysgolion effeithiol mewn amgylchiadau heriol yn deall y berthynas rhwng lles a safonau ac maent yn aml yn ad-drefnu eu system gofal bugeiliol i ddelio'n fwy uniongyrchol ag anghenion penodol dysgwyr sydd dan anfantais.**
> **(Estyn, 2012)**

Mae'n bosibl y bydd teuluoedd hefyd angen cefnogaeth i'w helpu i roi gwybod i'r ysgol beth sy'n digwydd gartref. Efallai y bydd y partner, sy'n dal i fyw yn y gymuned, yn teimlo cywilydd ac yn bryderus ynglŷn â dweud wrth athrawon beth sydd wedi digwydd. Clywodd y Grŵp Trawsbleidiol fod PACT Cymru a gwasanaeth cefnogi teuluoedd CSOF Barnardos Cymru yn helpu teuluoedd i gysylltu ag ysgolion i ddweud wrthynt fod rhiant disgybl yn y carchar.

Cyfeiriodd y plant a roddodd dystiolaeth i'r Grŵp Trawsbleidiol at y rôl bwysig y gall ysgolion ei chwarae i roi cefnogaeth pan maent yn gwybod bod rhiant neu aelod o deulu plentyn neu berson ifanc yn y carchar.

*'Roeddwn i'n teimlo'n well ar ôl siarad efo'r athro am fy nhad'*

*'Rwy'n hapus iawn gyda'r help gefais gan fy athro a'r ysgol ac rwy'n gallu delio efo pethau'n well'*

*'Mae'r athrawon a'r staff wastad yno i'm helpu'*

*'Dywedodd mam wrth fy athrawon; ac fe ddywedodd nhw 'Wyt ti'n iawn? Paid â phoeni am ddim byd, rydyn ni yma i dy helpu.'*

Mae'n amlwg, os yw ysgolion ac athrawon yn ymwybodol o'r sefyllfa ac yn adnabod y disgyblion dan sylw, y gallant fod yn gefn mawr i blant a phobl ifanc. Yn ei dro, bydd cefnogaeth ar gyfer eu lles yn gwella'r rhagolygon i'r plant hyn gael mynediad at addysg sy'n eu galluogi i gyflawni eu potensial llawn yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (Erthygl 29). Mae profiadau a deilliannau addysgol gwael yn cael eu cysylltu â risg gynyddol o ymddygiad troseddol. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod 42% o boblogaeth carchardai oedolion wedi cael eu gwahardd o'r ysgol, roedd 59% yn chwarae triwant yn rheolaidd ac roedd 47% ohonynt heb unrhyw gymwysterau.[9]

Roedd sesiwn dystiolaeth y Grŵp Trawsbleidiol ar addysg yn cynnwys tystiolaeth ar nifer o enghreifftiau o arferion da. Maent yn cynnwys: gwaith i ymgysylltu tadau yn y carchar yn uniongyrchol ag addysg eu plant, yn ogystal ag enghreifftiau o waith mewn ysgolion, er mwyn sicrhau bod lleoliadau addysg yn cael eu paratoi i nodi a helpu'r plant a'r bobl ifanc hyn.

Mae'n hanfodol bod canllawiau ymarfer a pholisïau yn gefnogol i arlwy da, cyson, i gefnogi lles plant sy'n teimlo effaith carcharu eu rhieni ym mhob lleoliad addysg ar draws Cymru.

## Gwasanaeth Presenoldeb a Lles Rhondda Cynon Taf

Cafodd y dull o broffilio plant agored i niwed ei ddatblygu yn 2012 gan y gwasanaeth presenoldeb a lles. Mae hwn yn ffordd o nodi'r plant a'r bobl ifanc hynny sydd mewn perygl o ymddieithrio o ddysgu, o ganlyniad i rwystrau sy'n eu hwynebu y tu allan i amgylchedd yr ysgol. Mae'n defnyddio ystod o ddata a ddelir gan yr awdurdod lleol am ffactorau hysbys y bernir eu bod yn cynyddu'r risg o ymddieithrio. Mae gwaith yn mynd rhagddo i adeiladu'r setiau data angenrheidiol i gwmpasu'r ffactorau y gwyddys eu bod yn cyfrannu at ymddieithrio. Ond os nad oes setiau data swyddogol ar gael, gan gynnwys plant sy'n teimlo effaith carcharu eu rhieni, defnyddir y dull proffilio i nodi plant a phobl ifanc y gallent fod angen cefnogaeth les ychwanegol, er mwyn ymgysylltu a chyflawni'n addysgol.

Fel rhan o waith i gefnogi lles dysgwyr dan anfantais, mae'r gwasanaeth wedi prynu gan Barnardos Cymru *'Plant sy'n teimlo effaith carcharu aelod o'r teulu: Llawlyfr i ysgolion i ddatblygu arfer da'*: ar gyfer yr 131 o ysgolion yn Rhondda Cynon Taf. Maent hefyd wedi llofnodi Cytgord Invisible Walls ac wedi darparu hyfforddiant drwy gyfrwng y cytgord a gwasanaeth CSOF Barnardos Cymru i staff ar draws lleoliadau addysg.

> *'Er bod gwella lles pob plentyn yn flaenoriaeth, rydym wedi canolbwyntio'n benodol ar gau'r bwlch ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau penodol rhag mynychu'r ysgol ac ymroi i ddysgu. Mae plant sy'n teimlo effaith carcharu eu rhieni yn cael eu cynnwys yn y cynllun gweithredu hwn. Teimlwn ei bod yn bwysig cydnabod bod y plant hyn yn arbennig o agored i niwed ac mae'r cynllun yn codi proffil eu hanghenion ar draws gwasanaethau ac ysgolion.'*
>
> Zoe Lancelott, Pennaeth Ymgysylltu a Chyfranogi, Rhondda Cynon Taf

## Cytgord Invisible Walls, Carchar Parc

Mae Cytgord Invisible Walls yn rhan o brosiect a ariennir drwy Gronfa'r Loteri Fawr, a'r nod penodol yw cael pob ysgol i gyfranogi yn y broses o gynnig cefnogaeth ac arweiniad i ddisgyblion sydd â rhiant neu berthynas agos yn y carchar.

Gofynnir i benaethiaid lofnodi Cytgord Invisible Walls a nodi un pwynt cyswllt yn eu hysgol, a fydd yn cael ei gefnogi gan dîm Invisible Walls Cymru yng Ngharchar Parc. Bydd y tîm yn rhoi i'r Cyswllt wybodaeth ac adnoddau, i helpu i nodi a chynorthwyo'r plant a'r bobl ifanc y mae hyn yn effeithio arnynt. Cynigir i'r Cyswllt ddigwyddiad chwarterol yn y carchar lle gall fynd drwy'r profiad ymweld, gofyn cwestiynau a chael gwybodaeth am effaith carcharu aelod o'r teulu ar blant a phobl ifanc. Daw'r Cyswllt yn unigolyn y gall plant sy'n teimlo effaith carcharu droi ato am gyngor a chefnogaeth yn yr ysgol.

Fel rhan o'r gwaith ymyriadau teuluol a wnaed yng Ngharchar Parc, ceir ffocws ar ddysgu fel teulu ac ennyn diddordeb tadau yn y carchar, yn addysg eu plant. Mae hyn yn cynnwys clwb gwaith cartref yn y carchar, lle gall tadau helpu eu plant gyda'u gwaith cartref, yn ogystal â nosweithiau rhieni sy'n caniatáu i athrawon, plant a mamau ddod i mewn i'r carchar, er mwyn gallu cynnwys tadau mewn trafodaethau am gynnydd addysgol eu plentyn.
Mewn partneriaeth ag Awdurdod Lleol Pen-y-bont ar Ogwr cynhelir hefyd sesiynau 'rhif a chwarae' ac 'iaith a chwarae' yn y carchar ar gyfer plant iau.

Clywodd y Grŵp Trawsbleidiol fod y cyfleoedd a gynigir yn y carchar, yn darparu i rai tadau y profiad cyntaf o gymryd rhan yn addysg eu plentyn a bod hyn yn ysgogi eu diddordeb unwaith mae'r rhiant yn ôl yn y gymuned ar ôl ei ryddhau.

*'Rwyf wedi gweld gwahaniaeth amlwg ynddo ef (tad) ac mae mom yn hapusach hefyd. Maen nhw'n awr yn gwneud llawer fel teulu, mae'r ddau yn dod i'r ysgol i gefnogi (merch) gyda'i gilydd, mae popeth i'w weld yn fwy positif. Rwy'n meddwl mai'r ymyriadau y maent wedi'u cael sydd i gyfrif am lawer o hyn.'*

Athro ysgol

# Gwasanaeth Cefnogaeth Gymunedol Barnardo’s Cymru i Deuluoedd Troseddwyr (CSOF) – Gwaith gydag ysgolion

Mae’r Gwasanaeth CSOF yn cynnwys arlwy cefnogaeth ar gyfer ysgolion, gan ddarparu gwasanaeth cynghori ac ymgynghori iddynt, helpu teuluoedd i weithio gydag ysgolion a’u hysbysu o amgylchiadau’r cartref, yn ogystal â chymryd atgyfeiriadau gan ysgolion, mewn perthynas â’r plant hyn. Y nod cyffredinol yw cefnogi cysylltiadau cryf rhwng y cartref a’r ysgol a lleihau stigma ar gyfer plant a phobl ifanc a’u teuluoedd sy’n teimlo effaith carcharu.

Mae’r gwasanaeth yn helpu ysgolion i ddeall ac ymateb i blant a phobl ifanc drwy ddarparu llawlyfr Barnardo’s Cymru, ‘Plant sy’n teimlo effaith carcharu aelod o’r teulu: Llawlyfr i ysgolion i ddatblygu arfer da’ gan ddarparu hyfforddiant Dedfryd Gudd i helpu i’w weithredu.



# Menywod yn y carchar – effaith bod â mam yn y carchar

Mae mamau yn fwy tebygol na thadau i fod yn brif neu'n unig ddarparwr gofal plant mewn teulu. O'r herwydd, mae effaith carcharu mam ar y trefniadau gofalu a byw i'r plentyn yn debygol o fod yn fwy. Mae ymchwil yn awgrymu, pan fydd mam yn cael ei dedfrydu, mai dim ond 5% o blant sy'n aros yn eu cartrefi eu hunain.[10]

Mae menywod o Gymru sy'n cael eu dedfrydu i'r ddalfa yn treulio eu dedfryd mewn carchardai yn Lloegr, gan nad oes carchar i fenywod yng Nghymru. Mae ffigurau a gafwyd gan NOMS Cymru yn amcangyfrif bod tua 250 o fenywod o Gymru mewn carchardai yn Lloegr ar unrhyw un adeg, ac mae'r rhai sydd wedi cael dedfryd hirach yn cael eu cadw ymhellach i ffwrdd o Gymru. Felly, mae'r effaith ar blant a theuluoedd yn fwy sylweddol oherwydd pellter, gyda siwrnai hir, a gwasanaethau yng Nghymru yn brin.

Mae ymchwil yn awgrymu bod hyd at 55% o fenywod a gafodd eu cyfweld yn y carchar, yn famau i blant dan 18 oed. Dim ond 9% o blant, y mae eu mamau wedi'u carcharu, y mae eu tadau wedyn yn gofalu amdanynt; mae 12% yn gorfod mynd i ofal a bydd y gweddill yn aros gydag aelodau'r teulu neu ffrindiau. Nid oedd hanner y menywod a oedd yn byw gyda'u plant, neu a oedd mewn cysylltiad â nhw cyn cael eu carcharu, wedi cael yr un ymweliad ers mynd i'r carchar, ac mae o leiaf 20% o famau sydd yn y carchar yn rhieni unigol o'i gymharu â 9% o'r boblogaeth gyffredinol.[11] Ceir tystiolaeth hefyd fod menywod yn y carchar yn fwy tebygol o fod â set gymhleth o broblemau ychwanegol, yn ymwneud â phrofiadau o gamdriniaeth, trais, camddefnyddio sylweddau ac alcohol ac anawsterau iechyd meddwl.[12]

Cymerodd y Grŵp Trawsbleidiol dystiolaeth yn seiliedig ar ymchwil gan Robert Jones o Ganolfan Llywodraethu Cymru ym Mhrifysgol De Cymru, am effaith sylweddol y pellter y mae'n rhaid i deuluoedd deithio i ymweld â menywod yn y carchar, oherwydd eu bod yn cael eu rhoi mewn carchardai yn Lloegr. Mae'r gost a'r pellter y mae angen ei deithio er mwyn ymweld â mam yn y carchar, yn cael effaith ar lefel y cyswllt y gall plant ei gael gyda'u mamau ar ôl iddynt gael eu carcharu. Cyflwynodd Robert Jones hefyd dystiolaeth am anawsterau tebyg i deuluoedd o Ogledd Cymru yn ymweld â thadau mewn sefydliadau diogel yn Lloegr.

Mae tystiolaeth a gasglwyd drwy grwpiau ffocws gan y prosiect 'Ymweld â Mam' sy'n cael ei ddarparu gan PACT a Sova, yn nodi pellter o'r cartref a chostau teithio yn ogystal â diffyg oedolyn priodol i fynd gyda phlentyn i ymweld â'i fam yn y carchar, fel y ddau brif rwystr rhag cadw cysylltiad â'r rhieni.

Mae'n amlwg y gall carcharu mam gael effaith niweidiol iawn ar blant. Ceir rhwystrau ymarferol go iawn i gynnal cyswllt rheolaidd rhwng plant a mamau o Gymru, sy'n cael eu hanfon i'r carchar yn Lloegr. Daw'r rhwystrau rhag cysylltu ar adeg ym mywyd y plentyn pan fyddant yn debygol o fod wedi gweld eu prif ofalwr a'u trefniadau byw yn newid.

Nid yw'r Grŵp Trawsbleidiol yn credu mai'r ateb i'r broblem hon yw darparu cyfleusterau diogel i fenywod yng Nghymru. Dywedodd Robert Jones o Ganolfan Llywodraethu Cymru wrth y Grŵp Trawsbleidiol fod nifer y menywod sydd yn y carchar, ar gyfer Cymru a Lloegr gyda'i gilydd, wedi gostwng 8.4% rhwng mis Mai 2012 a mis Rhagfyr 2014. Fodd bynnag, ar gyfer Cymru yn unig, fe wnaeth nifer y menywod yn y carchar gynyddu 6.2% dros yr un cyfnod (rhwng mis Mai 2012 a mis Rhagfyr 2014). Rhaid gweithredu ar frys i ddatblygu ymhellach ddewisiadau amgen yn y gymuned yn hytrach na charcharu merched sy'n cael eu dedfrydu. Mae angen gweithredu er mwyn sicrhau bod effaith ddinistriol carcharu eu mam ar blant yn cael yr ystyriaeth ddyladwy mewn penderfyniadau dedfrydu.

Clywodd y Grŵp Trawsbleidiol hefyd dystiolaeth am yr arferion da sydd eisoes yn cael eu darparu i gefnogi menywod yn y system cyfiawnder troseddol a sicrhau y gall plant fwynhau eu hawl i gysylltu gyda'u rhieni dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (Erthygl 9) - er bod eu mam wedi cael eu lleoli'r tu allan i Gymru. Dylai canllawiau a hyfforddiant polisïau ac ymarfer rybuddio gwasanaethau cefnogaeth gymunedol a phrif ffrwd, o'r effaith benodol y gall carcharu mam ei chael ar blentyn a'u paratoi i helpu plant drwy'r profiad o fod yn blentyn i fam sydd yn y carchar.

## Cynllun Braenaru Rheoli Troseddwyr Integredig (IOM) Cymru i Fenywod

Partneriaeth strategol Cymru gyfan dan arweiniad Prawf Cymru a ACPO Cymru yw cynllun Rheoli Troseddwyr Integredig (IOM) Cymru. Fe'i datblygwyd i gydnabod yr angen i gydlynu gweithgarwch strategol a gweithredol partneriaid cyfiawnder troseddol a chymdeithasol. Mae'r strwythur llywodraethu yn canolbwyntio'n benodol ar leihau troseddu drwy leihau aildroseddu. Mae Bwrdd IOM Cymru hefyd wedi datblygu Strategaeth Cymru ar gyfer Lleihau Aildroseddu - y strategaeth genedlaethol gyntaf yn y DU ar ran y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan.

Mae'r cynllun cyflawni dan y strategaeth yn cynnwys llwybr yn benodol ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd troseddwyr gyda chamau gweithredu cysylltiedig. Mae'r cynllun braenaru i fenywod sy'n droseddwyr yn cynnwys mesurau i ddatblygu a gweithredu gwasanaethau effeithiol, gyda'r nod o alluogi carcharorion a throseddwyr benywaidd i gadw cysylltiad gyda'u plant a'u teuluoedd.

Y nod cyffredinol yw dylunio a chyflwyno dull integredig, system gyfan, penodol i fenywod o ddelio â menywod sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru. Mae'r llwybr menywod sy'n droseddwyr wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid cefnogaeth gymunedol lleol a'r trydydd sector, gan gynnwys Gwasanaeth CSOF Barnardos Cymru i ddarparu hyfforddiant, adnoddau ac ymgynghori i wasanaethau prif ffrwd, fel eu bod yn gallu nodi, adnabod ac ymateb yn well i anghenion y plant y mae hyn yn effeithio arnynt.

# Prosiect Ymweld â Mam – PACT a Sova

Mae’r prosiect arloesol ‘Ymweld â Mam’ yn brosiect a ariennir gan Gronfa’r Loteri Fawr a ddarperir mewn partneriaeth gan PACT a Sova. Nod y prosiect yw ymateb i lefelau angen mawr ymysg poblogaeth fenywaidd carchardai a’u helpu i gadw cysylltiad gyda’u plant a’u teuluoedd.

Mae’r prosiect yn darparu cefnogaeth ar y noson gyntaf yn y ddalfa, gwasanaeth gofal carennydd yng Ngharchar Holloway a gweithwyr ymgysylltu teuluol i helpu menywod yn y carchar i gadw cysylltiad gyda’u plant a theuluoedd.

Mae’r prosiect yn cefnogi plant o Dde Cymru yn benodol i gadw mewn cysylltiad â’u mamau yng Ngharchar Eastwood Park. Mae Sova yn darparu gwirfoddolwyr i helpu i gyflenwi prosiectau a gwneud ymweld â mamau yn realiti i blant a phobl ifanc.

# Tlodi plant a phlant sy'n teimlo effaith carcharu eu rhieni

Mae carcharu aelod o'r teulu yn cael ei gysylltu ag amrywiol ganlyniadau negyddol yn bennaf i deuluoedd carcharorion. Yn ogystal â'r straen emosiynol, y stigma cymdeithasol a'r heriau ymarferol pan garcherir aelod o'r teulu, mae caledi economaidd sylweddol yn brofiad cyffredin i deuluoedd y mae hyn yn effeithio arnynt.[13]

Canfu astudiaeth gan y Joseph Rowntree Foundation[14]:

- Fod teuluoedd carcharorion yn agored i ansefydlogrwydd ariannol, tlodi, dyled a'r aelwyd yn chwalu yn dilyn carcharu aelod o'r teulu
- Bod teuluoedd yn lleddfu'r cyfnod yn y carchar drwy anfon arian, dillad a nwyddau electronig at garcharorion
- Bod yr anfantais sy'n gysylltiedig â charcharu yn cynnwys, cyfraddau uchel o iselder, salwch corfforol a'r aelwyd yn chwalu
- Bod partneriaid a mamau carcharorion yn rhoi blaenoriaeth i anghenion gofal plant o flaen incwm yr aelwyd
- Bod y rhwystrau i gyflogaeth yn cynyddu i rai sy'n gofalu am blant carcharorion.

**Mae cyfiawnder troseddol a pholisïau lles cymdeithasol yn cyfuno i beri tlodi ac anfantais i deuluoedd carcharorion a'u plant a'u hallgau. (Smith et al, JRF, 2007)**

Cyflwynodd PACT Cymru dystiolaeth i'r Grŵp Trawsbleidiol ar sefyllfa ariannol carcharorion, cyn ac yn ystod eu cyfnod yn y carchar:

- O ran eu pwysigrwydd i garcharorion, llety ddaw yn gyntaf iddynt gyda chyllid yn ail, gyda thri chwarter ohonynt yn dweud ei fod yn peri cryn bryder iddynt
- Traean o garcharorion yn unig sy'n dweud bod ganddynt waith â chyflog yn ystod y pedair wythnos cyn iddynt gael eu carcharu
- Dywed 13% o bobl yn y carchar na fu ganddynt erioed waith
- Gall carcharor sy'n gweithio'n amser llawn ennill £12.50 yr wythnos ar gyfartaledd yn y carchar (£7.50 yn rhan amser)
- Mae galwadau'n costio 23.5 y funud i ffôn symudol a 8.4 y funud i linell dir.
- 12% o gyflogwyr yn unig sydd wedi cyflogi rhywun sydd â record droseddol yn y tair blynedd diwethaf a dywed un o bob pump na fyddent yn ystyried gwneud hynny.
- Dywed pedwar o bob pump o garcharorion fod eu heuogfarn yn ei gwneud yn anodd iddynt gael yswiriant, a'i fod yn ddrutach iddynt, gan effeithio'n bennaf ar forgeisi a hunangyflogaeth
- Gall carcharorion a'u teuluoedd fynd i ddyled yn ystod eu hamser yn y carchar.

Rhoddodd Barnardo's Cymru dystiolaeth ar effaith dedfryd o garchar o ran costau ychwanegol i deuluoedd gan awgrymu:

- Yn ôl amcangyfrif ceidwadol ei bod yn costio £200 y mis i deulu fod â rhywun yn y carchar (ymweliadau, anfon arian ayb.)
- Bod y pellter cyfartalog bob ffordd y mae'n rhaid i deulu deithio i ymweld ag aelod o'r teulu yn y carchar yn 60 milltir

## Astudiaethau achos: Cyngor ar Bopeth Cymru

Roedd tystiolaeth a roddwyd i'r Grŵp Trawsbleidiol fel rhan o'r sesiwn ar dlodi hefyd yn cynnwys nifer o astudiaethau achos sy'n amlygu'r straen ariannol difrifol y mae teuluoedd yn ei deimlo.

**Mae gan gleient deulu ifanc (tri o blant 3 oed ac iau) ac mae ei gŵr wedi cael ei anfon i'r carchar yn ddiweddar (am o leiaf 6 mis). Pan ddywedodd y cleient wrth y banc fod ei gŵr yn y carchar fe wnaeth rewi eu hasedau mewn cyfrif banc ar y cyd. Yn y pen draw llwyddodd i gael gafael ar gyflogau a budd-dal plant, ond nid arian o weithio na chredydau treth plant gan fod y llythyr dyfarnu yn enwau'r ddau ohonynt. Ni wnaiff y banc dderbyn ei awdurdodiad ysgrifenedig ef i ryddhau arian/cau'r cyfrif nes eu bod wedi siarad ag ef, ac nid yw hynny'n bosibl. Mae'r teulu yn dioddef caledi ariannol o'r**

**Mae'r cleient ar y funud yn byw mewn hostel ac mae ei gyn-partner yn y carchar (am gyfnod amhenodol). I ddechrau aed â'u dau blentyn i ofal, ond maent yn awr yn byw gydag ef. Mae'n hawlio ESA, ond mae'r budd-dal plant a'r chredydau treth plant yn dal i gael eu talu i'w gyn-bartner. Byddai'n hoffi hawlio'r ddau fudd-dal i'w helpu i ofalu am ei blant. Mae hefyd yn dal i dalu £40 y mis o arian cynnal plant i'w gyn-bartner. Mae wedi cysylltu â'r Asiantaeth Cynnal Plant a'r DWP, ond ni chafodd unrhyw help hyd yma. Gofynnodd am gymorth gan Gyngor ar Bopeth, gan ei fod yn ei chael yn anodd ar ychydig iawn o arian, nid yw wedi bwyta yn iawn ers tro ac roedd arno angen tocyn bwyd.**

**Mae'r cleient yn gofalu am ei phedwar o wyrion tra bod ei merch yn y carchar. Arferai ei merch gael cymhorthdal incwm ond mae bellach wedi ei stopio. Mae gan y Cleient gyflwr iechyd tymor hir ac mae ar fudd-daliadau ei hun. Mae'r tâl tan-feddiannu (2 ystafell sbâr) hefyd yn effeithio arni, ac mae'n dal i orfod cyfrannu at ei chostau rhent er bod ei hwyrion bellach wedi bod yn aros gyda hi ers 8 wythnos. Mae'r arafwch yn delio â'i hawliau i fudd-daliadau, o ystyried y newid mewn amgylchiadau, yn achosi caledi ariannol difrifol iddi hi (a'r plant). Mae hi wedi gorfod dibynnu ar dalebau bwyd.**

Mae'r astudiaethau achos hyn yn dangos difrifoldeb caledi ariannol carcharorion a'u teuluoedd. Yn ogystal â hyn, y mae'r gost ychwanegol o gefnogi ac ymweld ag aelod o'r teulu yn y carchar.

Ceir tystiolaeth gref bod teuluoedd y mae carcharu yn effeithio arnynt dan anfantais economaidd mewn nifer o ffyrdd, cyn, yn ystod ac yn dilyn dedfryd o garchar. Mae'n amlwg bod y plant sy'n teimlo effaith carcharu rhiant mewn perygl arbennig o ddioddef tlodi plant. Mae tlodi plant yn effeithio ar i ba raddau y mae plant yn gallu gwireddu eu hawliau a ffynnu. Dylai polisïau, rhaglenni ac arferion tlodi gydnabod anghenion plant a theuluoedd y mae carcharu rhieni yn effeithio arnynt a darparu cymorth wedi'i dargedu yn y carchar ac yn y gymuned, i sicrhau bod plant y mae carcharu eu rhieni yn effeithio arnynt yn gallu gwireddu eu hawl i safonau byw digonol dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (erthygl 27).

## PACT Cymru,

### Carchar Abertawe, Carchar Caerdydd, Carchar Brynbuga a Phrescoed

Fel rhan o'u gwaith cefnogi teuluoedd ehangach mewn carchardai a'r gymuned, mae PACT Cymru yn cydnabod yr angen i gynnig cefnogaeth mewn ymateb i effaith ariannol carcharu. Mae eu rhaglen 'Adeiladu Teuluoedd Cryfach' yn gwrs 6 diwrnod sy'n llwyddo i gryfhau perthynas carcharorion gyda'u partneriaid; gan leihau'r risg bod cyplau'n gwahanu. Fel rhan o'r rhaglen hon mae'r straen ariannol y mae'r ceisiadau am gefnogaeth ariannol gan dadau yn y carchar yn ei chael ar eu partneriaid yn y gymuned yn cael ei archwilio ac mae hyn yn gweithio i alluogi tadau yn y carchar i gael golwg realistig ar y sefyllfa ariannol gartref.

> 'Doedd gen i ddim syniad faint roedd yn ei gostio i'm partner dalu'r biliau allan yna. Nawr fy mod i yn gwybod, ni fyddaf yn gofyn iddi lle mae wedi gwario'r arian.'
>
> 'Rwy'n mynd i feddwl ddwywaith cyn gofyn iddi anfon £20 i mewn imi gael ei wario yn y cantîn.'

Mae PACT Cymru hefyd yn helpu teuluoedd, gyda gwybodaeth a chyngor ar y cynllun 'Cymorth i Ymweld â'r Carchar', lle gall ymwelwyr ar fudd-daliadau hawlio'n ôl gost o hyd at un ymweliad

bob pythefnos fel ôl-hawliad a gwybodaeth a chyngor ar broblemau ariannol ehangach gartref.

## Cyngor ar Bopeth Cymru

Mae Cyngor ar Bopeth yn sefydliad yn y DU sy'n rhoi cyngor ar amrywiaeth eang o faterion ariannol a gwasanaethau. Yng Nghymru, mae gan Cyngor ar Bopeth Cymru rwydwaith o 19 o wasanaethau Cyngor ar Bopeth lleol - pob un yn elusen unigol, sy'n rhoi cyngor o dros 375 o leoliadau cymunedol.

Fel rhan o'r gwaith hwn, mae Cyngor ar Bopeth wedi darparu rhaglenni 'Gallu Ariannol' mewn nifer o garchardai yng Nghymru, drwy sesiynau a gweithdai. Mae Cyngor ar Bopeth hefyd yn rhedeg sesiynau cynghori mewn carchardai. Maent wedi nodi nifer o wersi o'r ymarfer:

- Yr angen am gefnogaeth gallu ariannol/cyngor mwy rhagweithiol i deuluoedd y mae'r mater hwn yn effeithio arnynt ac i garcharorion pan maent yn mynd i garchar, yn ogystal â chyn eu rhyddhau (er mwyn sicrhau bod dyledion/ cyfrifoldebau ariannol eraill yn cael sylw)

- Yr angen i godi ymwybyddiaeth o'r cyngor/cefnogaeth ehangach sydd ar gael i deuluoedd i'w helpu i ymdopi â'r newid mawr yn eu hamgylchiadau

- Yr angen am ddull gweithredu sy'n darparu ar gyfer heriau y gellid eu hwynebu wrth geisio darparu cyngor mewn carchardai

# Barnardo’s Cymru – Gwaith Teulu, Canolfan Ymwelwyr Teuluol Susan Ellis

## Carchar a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc

Mae gweithwyr teulu Barnardos Cymru yn gwneud gwaith uniongyrchol ac anuniongyrchol sy’n cefnogi plant a theuluoedd yn y ganolfan ymwelwyr. Mae’r gwasanaeth yn datblygu ffyrdd arloesol o weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau yn y gymuned sy’n cefnogi plant a theuluoedd sy’n defnyddio’r ganolfan ymwelwyr. Maent yn darparu cefnogaeth i rieni a phlant drwy’r broses ymweld, gan gynnig cefnogaeth emosiynol ac ymarferol, yn ogystal â chyngor a chymorth i rieni a phlant gyda’u hanawsterau; maent hefyd yn cyfeirio rhieni at wasanaethau cefnogaeth perthnasol yn y gymuned.

Fel rhan o’r gwaith hwn, mae’r gweithwyr teulu yn rhoi cefnogaeth gyda chynllun Cymorth i Ymweld â’r Carchar, yn cyfeirio at gefnogaeth gymunedol ar faterion ariannol ac yn darparu mynediad at dalebau Cychwyn Iach. Mae gweithwyr teulu hefyd yn eirioli ar ran teuluoedd, i gael mynediad at gymorth gyda materion mwy cymhleth megis, adfeddiannu tŷ a bygythiad o droi allan oherwydd ôl-ddyledion rhent neu faterion y dreth ystafell wely. Mae gwaith hefyd yn cael ei wneud i roi cefnogaeth ymarferol uniongyrchol i deuluoedd sy’n ei chael yn anodd yn ariannol, drwy er enghraifft, Siop Gyfnewid dillad i blant sy’n darparu dillad ail law o ansawdd da ar gyfer plant yn y ganolfan ymwelwyr.

# Sesiwn gyda phlant a rhieni sy'n teimlo effaith carcharu

Prif nod y sesiwn hon oedd rhoi cyfle i blant a'u teuluoedd sgwrsio, trin a thrafod yn uniongyrchol gyda rhai sy'n gwneud penderfyniadau a pholisïau. Daeth pedwar o deuluoedd i'r cyfarfod; mynychodd pedwar o blant heb riant a daeth saith o blant o ddau deulu gyda'u rhieni. Roedd y plant a'r teuluoedd yn cael eu cefnogi gan staff gwasanaeth CAPI Barnardos Cymru (plant sy'n teimlo effaith carcharu eu rhieni) ac roedd ystafell neilltuo ar gael i'r plant. Cynhaliwyd y sesiwn yn Adeilad y Pierhead.

## Dywedodd y plant wrthym:

Pa mor bwysig oedd i'r ysgol fod yn gwybod bod ganddynt riant yn y carchar a'r help y gallai athrawon ac ysgolion ei roi iddynt.

> *'Mae'r athrawon wastad yn gofalu amdanaf ac maen nhw yno i mi ac yn fy helpu drwy'r amser'*

Dywedasant hefyd am yr anawsterau pan nad yw'r ysgol yn gwybod beth sy'n digwydd gartref, a pha mor drist maent yn teimlo yn yr ysgol weithiau, gan eu bod yn poeni am eu teulu neu'n methu eu mam neu'u tad.

Dywedwyd bod cefnogaeth aelodau o'r teulu estynedig yn bwysig - yn enwedig i blant sydd â mam yn y carchar.

Roedd plant yn glir ynglŷn â'r gwaith caletach yr oedd gan y rhiant a oedd gartref gyda nhw i'w wneud i gadw'r teulu i fynd.

> *'Ar fy mhen-blwydd mae mam yn actio fel Dad a Mam ar yr un pryd'*

Dywedasant wrthym am blant eraill yn yr ysgol weithiau'n galw enwau arnynt, neu'n eu bwlio gan fod un o'u rhieni yn y carchar. Dywedodd rhai plant hefyd fod ganddynt rai ffrindiau yn yr ysgol a oedd yn gefn mawr iddynt ac yn gofalu amdanynt.

*'Rydyn ni'n teimlo ein bod ar ein pen ein hunain, gan nad oes gan lawer o'n ffrindiau dadau yn y carchar'*

*'Maen nhw'n gallu dweud pethau cas'*

*'Mae fy ffrind gorau yn fy ngwneud yn hapus ac yn codi fy nghalon pan rwy'n crio'*

Siaradodd y plant am yr help a gânt gan weithwyr teulu a'r gweithgareddau maen nhw'n eu mwynhau yn y carchar.

Roedd yr ymweliadau teuluol a'r clybiau gwaith cartref yng Ngharchar Parc yn bwysig i'r plant, fel y gallent dreulio amser gwerthfawr gyda'u tadau. Roedd galwadau ffôn hefyd yn bwysig iawn iddynt, fel y gallent ddweud wrth eu tadau beth oedd yn digwydd yn yr ysgol a beth maent yn ei wneud.

*'Dwi'n hoffi'r clybiau gwaith cartref, fel bod Dad yn gwybod beth ydyn ni'n ei wneud yn yr ysgol'*

*(Dyddiau i'r teulu yn y carchar) 'Yr ymweliad gorau erioed a byddai'n wych pe byddai'n dair awr yn hytrach na dwy'*

## Dywedodd y rhieni wrthym:

Roedd un rhiant yn poeni bod eu plant yn colli amser o'r ysgol i ymweld â'u tad yn y carchar. Siaradodd un arall am ba mor gefnogol yr oedd yr ysgol wedi bod i'w phlant, gan helpu i wneud yn siŵr na fyddai amser i ffwrdd ar gyfer ymweliadau yn effeithio ar eu gallu i wneud eu gwaith ysgol.

Roeddent yn bendant bod cysylltiad gyda'u tad yn y carchar, dros y ffôn, neu drwy ymweliadau yn bwysig iawn i'r plant.

Dywedodd rhai mamau ei bod yn anodd trafod materion oedolion, fel problemau ariannol, anawsterau gyda'r tŷ, neu newyddion teuluol gyda'u partneriaid yn y carchar o flaen y plant yn ystod yr ymweliadau. Dywedwyd ei bod hefyd yn anodd trafod pethau fel hyn, mewn sgyrsiau ffôn byr. Byddent yn croesawu'r posibilrwydd o gysylltiad drwy Skype, er mwyn iddynt allu trafod materion anodd allan o glyw'r plant.

# Cyfarfodydd y Grŵp Trawsbleidiol

## Mai 13eg 2014 – Cyfarfod Cychwynnol – Cefnogaeth Deuluol

**Christine Chapman AC** – Cadeirydd

**Corin Morgan-Armstrong**
Pennaeth Ymyriadau Teuluol ac Invisible Walls Cymru, Carchar EM Parc

**Jo Mulcahy**
Pennaeth Gwasanaethau Cymru a De-orllewin Lloegr, PACT

**Laura Tranter**
Rheolwr Gwasanaethau Strategol, Plant sy'n teimlo Effaith Carcharu eu Rhieni, Barnardo's Cymru

## Hydref 22ain 2014 – Addysg, Lles a Phlant sy'n teimlo effaith Carcharu eu Rhieni

**Christine Chapman AC –** Cadeirydd

**Addysg, Lles a Phlant sy'n teimlo effaith Carcharu eu Rhieni**
Dr. Sam Clutton
Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Polisi, Barnardo's Cymru

**Cytgord Invisible Walls: Gweithio gydag ysgolion**
Corin Morgan-Armstrong
Pennaeth Ymyriadau Teuluol ac Invisible Walls Cymru, Carchar Parc

**Gweithredu dull Awdurdod Addysg Lleol i gefnogi plant sy'n teimlo effaith carcharu eu rhieni mewn addysg**
Zoe Lancelott
Pennaeth Ymgysylltu a Chyfranogi, Rhondda Cynon Taf

**Llawlyfr Barnardo's Cymru i Ysgolion a gwaith CSOF gydag Addysg**
Emma Reed
Gweithiwr Prosiect, gwasanaeth CSOF Barnardo's Cymru

## Mawrth 10fed 2015 – Menywod yn y Carchar

**Christine Chapman AC –** Cadeirydd

**Negeseuon o Waith Ymchwil**
Robert Jones, Cyswllt Ymchwil, Canolfan Llywodraethu Cymru Prifysgol De Cymru

**Prosiect Ymweld â Mam**
Jo Mulcahy, Pennaeth Gwasanaethau Rhanbarthol PACT

**Prosiect Llwybrau i Fenywod**
Wendy Hyett, Rheolwr Prosiect Braenaru IOM Cymru i Fenywod

## Gorffennaf 7fed 2015 – Tlodi Plant a Phlant sy'n teimlo effaith Carcharu eu Rhieni

**Christine Chapman AC –** Cadeirydd

**Y Cyd-destun Cenedlaethol**
Dr Sam Clutton, Cyfarwyddwr Polisi Cynorthwyol Barnardo's Cymru

**Gwaith teulu yng Nghanolfan Ymwelwyr Carchar a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc**
Helen Steele, Gweithiwr Barnardo's Cymru yn y Ganolfan Ymwelwyr

**Carchardai, Teuluoedd a Thlodi**
Jo Mulcahy, Pennaeth Gwasanaethau Rhanbarthol PACT

**Carchardai, Teuluoedd a Thlodi**
Lyndsey Kearton, Swyddog Polisi, Cyngor ar Bopeth

## Gorffennaf 9fed 2015 – Ymweliad â Charchar EM Parc gyda:

Suzy Davies AC
Aled Roberts AC
Jackie Radford AC Staff Cymorth i Aled Roberts

Yn ystod yr ymweliad aethpwyd i’r ganolfan ymwelwyr, y neuadd ymweld, yr adain ymyriadau teuluol dan ofal Corin Morgan-Armstrong, G4S.

## Tachwedd 24ain 2015 – Cyfarfod Bord Gron gyda Phlant a Theuluoedd

**Christine Chapman AM –** Cadeirydd

Cysylltiad uniongyrchol, sgwrsio a thrafod rhwng plant, eu teuluoedd a’r rhai sy’n gwneud penderfyniadau a pholisïau.

# Pwy oedd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Grŵp Trawsbleidiol

**Aelodau**
Christine Chapman AC (Cadeirydd)
Aled Roberts AC
Jocelyn Davies AC
Suzy Davies AC

Julie Morgan AC
Janet Haworth AC
Mike Hedges AC

**Dirprwyon:**

| | |
|---|---|
| Barbara Natasegara | (Cymru Fwy Diogel) |
| Ben Ford | (Write to Freedom) |
| Bernie Bowen Thomson | (Cymru Fwy Diogel) |
| Beverley Poitner | (FFOPS) |
| Caroline Ryan | (YMCA Caerdydd) |
| Carol Floris | (SOVA) |
| Catherine Davies | (Barnardo's Cymru) |
| Charlie Cable | (SOVA) |
| Chris Powles | (Ieuenctid Sir Benfro) |
| Christine Mathias | (Awdurdod Lleol Sir Benfro) |
| Corin Morgan-Armstrong | (Carchar EM Parc) |
| Danielle Rayner | (IOM) |
| Elaine Speyer | (Barnardo's Cymru – cofnodion) |
| Emma Jones | (Gibran) |
| Emma Reed | (Barnardo's Cymru) |
| Emma Wools | (Prawf) |
| Emma Richards | (CRC Cymru) |
| Eve Exely | (Prifysgol Caerdydd) |
| Eve Wilmott | (Myfyriwr MA) |
| Gareth Williams | (YMCA Caerdydd) |
| Gemma Jones | (Cymorth i Ferched) |
| Helen Steele | (Barnardo's Cymru) |
| Ingrid Zammit | (NOMS) |
| Jack Stanley | (Swyddfa Peter Hain) |
| Jessica Joyce | (Prifysgol Caerdydd) |
| Jo Mulcahy | (PACT) |
| Joanne Heatley | (The Wallich) |
| Jocelyn Davies staff | |

| | |
|---|---|
| Justine Jenkins | (St Giles Trust) |
| Karen Rees | (Barnardo’s Cymru) |
| Kate Doyle | (SOVA) |
| Laura O“Keefe | (VCS Caerdydd) |
| Laura Tranter | (Barnardo’s Cymru) |
| Lee Dutton | (St Giles Trust) |
| Leeanne Plechowicz | (Llywodraeth Cymru) |
| Leon Morgans | (CRC Cymru /Prawf) |
| Lindsey Pudge | (Barnardo’s Cymru) |
| Lindsey Kearton | (Cyngor ar Bopeth) |
| Lyndon Samuel | (Heddlu Gwent) |
| Margaret Gardner | (FASO) |
| Mary Cooke | (Invisible Walls Cymru) |
| Mary Van den Heuvel | (ATL) |
| Nicky Sturgess-Webb | (Awdurdod Lleol Bro Morgannwg) |
| Nicola Thomas | (Invisible Walls Cymru) |
| Neera Sharma | (Barnardo’s) |
| Rachel Thomas | (Comisiynydd Plant Cymru) |
| Robert Jones | (Prifysgol De Cymru/ Canolfan Llywodraethu Cymru) |
| Robin Lewis | (Staff cymorth AC) |
| Sam Clutton | (Barnardo’s Cymru) |
| Sara Steele | (VCS Caerdydd) |
| Shamshi Ahmed | (SOVA) |
| Sian Mile | (Staff cymorth AC) |
| Sian Thomas | (MRS Cynulliad Cenedlaethol Cymru) |
| Tim Ruscoe | (Barnardo’s Cymru) |
| Tony Kirk | (NOMS) |
| Trish Woodhouse | (PACT) |
| Vicki Evans | (Staff cymorth AC) |
| Wendy Hyett | (Prosiect Braenaru IOM i Fenywod) |
| Yvonne Rodgers | (Barnardo’s Cymru) |
| Zoe Lancelott | (Addysg RCT) |

[1] Murray, J (2003) *Fathers in Prison*, Sefydliad Troseddeg, Prifysgol Caergrawnt

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2007) http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/+/http:/www.cabinetoffice.gov.uk/media/cabinetoffice/social_exclusion_task_force/assets/think_families/offenders_review_080110.pdf

SCIE (2008) *Guide 22: Children of prisoners- maintaining family ties,* Llundain: Sefydliad Rhagoriaeth Gofal Cymdeithasol.

[2]

http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/+/http:/www.cabinetoffice.gov.uk/media/cabinetoffice/social_exclusion_task_force/assets/think_families/offenders_review_080110.pdf

[3] Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai (2010) *Bromley Briefings prison fact file*, Llundain: Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai

[4] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2013) *Transforming Rehabilitation: a summary of evidence on reducing reoffending:* MoJ Analytical Series, Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

[5] Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai (2001) *Bromley Briefings prison fact file*, Llundain: Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai

[6]

SCIE (2008) *Guide 22: Children of prisoners - maintaining family ties,* Llundain: Sefydliad Rhagoriaeth Gofal Cymdeithasol.

[7] http://www.childcomwales.org.uk/en/publications-list/?offset=2

[8] Estyn (2012) *Ymarfer effeithiol i fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion*, Caerdydd: Estyn

[9]Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai (2014) *Bromley Briefings prison fact file*, Llundain: Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai http://www.prisonreformtrust.org.uk/Portals/0/Documents/Bromley%20Briefings/Factfile%20Autumn%202014.pdf

[10] Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai (2012), *Women in Prison*, Llundain: Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai http://www.prisonreformtrust.org.uk/Portals/0/Documents/WomenbriefingAug12small.pdf

[11] Gweler 8 uchod

[12] Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai (2012) *Bromley Briefings prison fact file*, Llundain: Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai
[13] Anna Kotova, (2014) *Justice and prisoners' families,* Howard league What is Justice? Working Paper 5/2014, Llundain: Howard League for Penal Reform

[14] Rose Smith et al, (2007), *Poverty and disadvantage among prisoners' families* , Caerefrog: JRF